WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Rhaglen Reoleiddio ar gyfer Archwilio Perfformiad rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2012: Adroddiad diweddaru

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Cyhoeddwyd:** Chwefror 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 147A2012

# Statws yr adroddiad

Awduron yr adroddiad hwn oedd Huw Lloyd Jones a John Roberts.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Diweddaru cynnydd

**1.** Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddarparu rheolwyr a Phwyllgor Archwilio Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) â diweddariad ar y gwaith a gafodd ei gynllunio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2011-12, fel rhan o'i *Raglen Rheoleiddio ar gyfer Archwilio Perfformiad rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2012*.

**2.** Mae'r gweithgareddau a gynllunwyd neu a gyflawnwyd wedi eu gosod yn y tabl isod, ynghyd â sylwad byr am y cynnydd. Mae'r tabl yn cynnwys gwybodaeth bellach ynglŷn ag elfennau mwy manwl sydd yn cefnogi cyflawni'r gwaith a osodwyd yn Atodiad 1 *Rhaglen Rheoleiddio ar gyfer Archwilio Perfformiad rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2012.*

**3.** Mae'r cynllun gwaith a'r ffi ar gyfer pob blwyddyn yn amgynnwys un cylchred o waith asesu corfforaethol a pherfformiadol. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y byddai'r gwaith yn ffitio'n dwt o fewn cyfnod o 1 Ebrill hyd 31 Mawrth. Gallai cyflawni rhaglen gwaith blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru, felly, gael ei wneud dros ddwy flwyddyn ariannol.

| Gweithgaredd | Cynnydd ar 1 Chwefror 2012 | Sylwadau |
|---|---|---|
| Gwirio cynnydd – meysydd i'w gwella 2010-11 | Wedi'i gwblhau | Y canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn y Llythyr CAU[1] ac wedi ei ddiweddaru yn yr AGB[2]. |
| Gwirio cynnydd – meysydd eraill i'w monitro 2010-11 | Wedi'i gwblhau | Y canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn y Llythyr CAU ac wedi ei ddiweddaru yn yr AGB. |
| Asesiad Risg o drefniadau ymyrryd newydd | Gwaith yn mynd rhagddo | Proses barhaus. Bydd y canfyddiadau yn bwydo i'r AGB a'r CAU fel sy'n addas. |
| Cynllun Archwilio Gwelliant 2011 | Wedi'i gwblhau | Y canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn y Llythyr CAU. |
| Astudiaeth thema – Llywodraethu Gwybodaeth | Gwaith yn mynd rhagddo | Y Cyngor wedi darparu tystiolaeth ychwanegol. Yr allbwn yn agos at gael ei gwblhau. |
| Astudiaeth thema – Technoleg TGCh | Wedi'i gwblhau | Adborth ffurfiol ysgrifenedig wedi ei anfon at y Cyngor ym mis Tachwedd 2011. Y canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn yr AGB. |

[1] Llythyr Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol (CAU) – cyhoeddwyd 22 Awst 2011 i'r Prif Weithredwr dros dro

[2] Adroddiad Gwella Blynyddol – cyhoeddwyd 31 Ionawr 2012

| Gweithgaredd | Cynnydd ar 1 Chwefror 2012 | Sylwadau |
|---|---|---|
| Astudiaeth thema – AD a Chynllunio Gweithlu | Wedi'i gwblhau | Adborth ffurfiol i'r Cyngor, mis Gorffennaf 2011. Y canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn yr AGB. Brîff parhaus o'r datblygiadau sy'n cael ei wylio. |
| Astudiaeth thema – Cynllunio Ariannol Tymor Canolig | Wedi'i gwblhau | Y canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn y Llythyr CAU. |
| **Astudiaeth thema ar faes gwasanaeth, amcan gwella neu brosiect penodol. Astudiaethau yn cael eu defnyddio er mwyn ymchwilio** | | |
| *Partneriaeth a chydweithio* | Monitro parhaus | Dim gwaith maes penodol.<br>Y canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn yr AGB. |
| *Craffu, llywodraethu ac atebolrwydd* | Wedi'i gwblhau | Y canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn yr AGB. |
| *Ymgynghori â'r cyhoedd* | Wedi'i gwblhau | Adborth ffurfiol i'r Cyngor, mis Hydref 2011. Y canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn yr AGB. |
| Astudiaeth Llywodraeth Leol Cymru gyfan 2010-11 – Ymgynghori â'r cyhoedd (gweler uchod) | Gwaith yn mynd rhagddo | Adroddiad cenedlaethol i'w gyhoeddi yn mis Chwefror 2012. |
| Asesiad o'r cynydd o ran amcanion gwella | Wedi'i gwblhau | Y canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn yr AGB. |
| Gweithdai sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau:<br>• Gwasanaeth Ariannol – hwyluso gwaith cynllunio busnes sy'n canolbwyntio ar ganlyniad<br>• Gweithdai aelodau<br>• Penaethiaid Gwasanaethau – hwyluso gwaith cynllunio busnes sy'n canolbwyntio ar ganlyniad | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Profi ac Archwilio Cyhoeddiad Asesiad Perfformiad y Cyngor | Wedi'i gwblhau | Y canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn yr AGB. |
| Archwilio dangosydd perfformiad | Wedi'i gwblhau | |

| Gweithgaredd | Cynnydd ar 1 Chwefror 2012 | Sylwadau |
|---|---|---|
| Canlyniadau cyflawni gwasanaethau | Dadansoddi lefel uchel wedi'i gwblhau | Adroddwyd arno yn yr AGB. Ystyried edrych yn fanylach ar feysydd penodol y flwyddyn nesaf. |
| Asesiad budd-dal Tai a Threth Gyngor | Wedi'i gwblhau | Adborth anffurfiol wedi ei gyhoeddi i'r Cyngor, mis Hydref 2011. Y canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn yr AGB. |
| Astudiaeth Llywodraeth Leol Cymru gyfan 2011-12 – i'w gadarnhau | | |
| Gwirio cynnydd – meysydd i'w gwella 2011-12 | Gwaith yn mynd rhagddo | Bydd y canfyddiadau yn cael eu hadlewyrchu yn y Llythyr CAU yn 2012. |
| Gwirio cynnydd – meysydd eraill i'w monitro 2011-12 | Gwaith yn mynd rhagddo | Bydd y canfyddiadau yn cael eu hadlewyrchu yn y Llythyr CAU yn 2012. |
| Cynllunio ac Adrodd ar Fusnes | Monitro parhaus | Adroddwyd arno yn y Llythyr CAU ac yn yr AGB. |
| Gweithredu Rheoli Prosiect | Heb ddechrau eto | |
| Cynllun Archwilio Gwelliant 2012 | Heb ddechrau eto | |
| Gweithgaredd ychwanegol ymhellach na'r rhaglen gwreiddiol | | |
| Adolygiad o'r Uned Hwyluso Gwasanaethau Uniongyrchol | Gwaith yn mynd rhagddo | Gwaith cwmpasu â'r Cyngor. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk